

Agenda – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: Hybrid – Ystafell Bwyllgora 4	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom	Owain Roberts
Dyddiad: Dydd Mercher, 15 Ionawr 2025	Clerc y Pwyllgor
	0300 200 6388
Amser: 09.30	SeneddCyllid@senedd.cymru

Cofrestru

(08.30 – 08.45)

Rhag-gyfarfod preifat

(08.45 – 09.00)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.00)

2 Papurau i'w nodi

(09.00)

2.1 PTN 1 – Llythyr gan y Llywydd at Fforwm y Cadeiryddion: Cynrychiolaeth ar gyrrff rhyngseneddol – 7 Ionawr 2025

(Tudalennau 1 – 2)

2.2 PTN 2 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: Rhagor o wybodaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet am y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru), yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 5 Rhagfyr – 7 Ionawr 2025

(Tudalennau 3 – 12)

3 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025–26: Sesiwn tystiolaeth 5

(09.00 – 10.00)

(Tudalennau 13 – 74)

Cllr Lis Burnett, Arweinydd, Cyngor Bro Morgannwg

Cllr Nia Jeffreys, Arweinydd, Cyngor Gwynedd

Cllr Anthony Hunt, Arweinydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Cllr Andrew Morgan, Arweinydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf



Dogfennau ategol:

FIN(6)-02-25 P1 – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLLC)

Briff Ymchwil y Senedd

Egwyl

(10.00 – 10.10)

4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025–26: Sesiwn tystiolaeth 6

(10.10 – 11.10)

(Tudalennau 75 – 131)

Darren Hughes, Cyfarwyddwr, Conffederasiwn GIG Cymru

Catherine Phillips, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, Bwrdd Iechyd Prifysgol

Caerdydd a'r Fro a Chadeirydd Grŵp Cymheiriaid Cyfarwyddwyr Gweithredol
Cyllid

Lance Carver, Cadeirydd, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau

Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru) a Chyfarwyddwr Gwasanaethau

Cymdeithasol Cyngor Bro Morgannwg

Jane Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Powys

(hefyd y Swyddog a.151 yn cynrychioli Cymdeithas Trysoryddion Cymru)

Dogfennau ategol:

FIN(6)-02-25 P2 – Conffederasiwn GIG Cymru

FIN(6)-02-25 P3 – Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol

Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)

Briff Ymchwil y Senedd

Egwyl

(11.10 – 11.20)

5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025–26: Sesiwn tystiolaeth 7

(11.20 – 12.10)

(Tudalennau 132 – 153)

Victoria Winckler, Cyfarwyddwr, Sefydliad Bevan

Dogfennau ategol:

FIN(6)-02-25 P4 – Sefydliad Bevan

- 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn.**
(12.10)
- 7 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025–26: Trafod y dystiolaeth**
(12.10 – 12.25)
- 8 Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2024**
(12.25 – 12.30) (Tudalennau 154 – 156)
Dogfennau ategol:
[SL\(6\)563 – Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir \(Bandiau Treth a Chyfraddau Treth\) \(Cymru\) \(Diwygio\) 2024](#)
[Memorandwm Esboniadol](#)
FIN(6)–02–25 P5 – Nodyn Gwasanaethau Cyfreithiol
- 9 Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Safleoedd Treth Arbennig) (Cymru) 2025**
(12.30 – 12.35) (Tudalennau 157 – 158)
Dogfennau ategol:
[Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir \(Addasu Rhyddhad ar gyfer Safleoedd Treth Arbennig\) \(Cymru\) 2025](#)
[Memorandwm Esboniadol](#)
FIN(6)–02–25 P6 – Nodyn Gwasanaethau Cyfreithiol
- 10 Ymgynghoriad ar adolygiad o God Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru**
(12.35 – 12.40) (Tudalennau 159 – 160)
Dogfennau ategol:
FIN(6)–02–25 P7 – Papur blaen: Ymgynghoriad ar adolygiad o God Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru

11 Cynllun Ffioedd Archwilio Cymru 2025–26

(12.40 – 12.45)

(Tudalennau 161 – 183)

Dogfennau ategol:

FIN(6)–02–25 P8 – Cynllun Ffioedd 2025–26



Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS

Llywydd, Senedd Cymru

Right Honourable Elin Jones MS

Llywydd, Welsh Parliament

Senedd Cymru
Item 2.1

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

Llywydd@senedd.cymru

0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

Llywydd@senedd.wales

0300 200 6565

Fforwm y Cadeiryddion

Drwy e-bost

7 Ionawr 2025

Annwyl Gadeiryddion,

Cynrychiolaeth ar gyrff rhyngseneddol


Yn dilyn y drafodaeth yng nghyfarfod Fforwm y Cadeiryddion ar 2 Rhagfyr, dyma ysgrifennu i gadarnhau'r hyn a benderfynwyd ynghylch cynrychiolaeth y Senedd ar y Fforwm Rhyngseneddol a Chynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE. Mae'r Senedd yn gallu enwebu dau Aelod ar gyfer pob grŵp. Cytunodd y Cadeiryddion:

- Dylai cynrychiolaeth y Senedd ar y ddau gorff barhau i fod yn gysylltiedig â chylchoedd gwaith pwyllgorau;
- Dylai'r Aelodau a enwebir fod yn gadeiryddion ar y pwyllgorau perthnasol ym mhob achos, ond gyda'r gallu parhaus i'r cadeiryddion enwebu eilyddion o'u pwyllgorau i fynd i gyfarfodydd yn ôl yr angen;
- Bod parhad cynrychiolaeth yn bwysig, lle gellir cynnal hynny;
- Byddai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad (DCC), Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (NHAS), Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig (Pwyllgor yr Economi) a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol (y Pwyllgor Diwylliant) yn cynrychioli'r Senedd ar y ddau gorff, gyda chadeiryddion y pwyllgorau hynny y tu allan i gyfarfod Fforwm y Cadeiryddion yn penderfynu ar ddryniad y rolau.

Drwy drafodaeth y tu allan i'r Fforwm, cytunwyd ar yr enwebiadau a ganlyn:

- Y Fforwm Rhyngseneddol: Cadeiryddion Pwyllgorau DCC ac NHAS.
- Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE: Cadeiryddion Pwyllgor yr Economi a'r Pwyllgor Diwylliant.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'Elin Jones', is positioned above a faint, light blue rectangular stamp.

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones MS/AS

Llywydd

Cadeirydd Fforwm y Cadeiryddion

Mark Drakeford AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1NA
SeneddFinance@senedd.wales

7 Ionwar 2025

Annwyl Peredur,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 13 Rhagfyr 2024 yn dilyn sesiwn graffu'r Pwyllgor Cyllid ar Fil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) etc. (Cymru) ar 5 Rhagfyr. Rwyf yn ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth bellach y gofynnodd y Pwyllgor amdani.

Wrth ymgynghori ar eich cynigion ar gyfer ardoll ymwelwyr ddewisol i awdurdodau lleol, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn erbyn ymreolaeth leol yn y fframwaith treth, gan nodi sut y gallai ymreolaeth leol gyflwyno anghysondebau ar draws ardaloedd gwahanol a chymell cystadleuaeth ar draws awdurdodau lleol.

1. Sut y gwnaeth y safbwyntiau hyn lywio eich meddwl ynghylch eich dull o gynllunio'r fframwaith ar gyfer yr ardoll?

Mae'r ardoll ymwelwyr yn ddewisol, a'r nod yw rhoi penderfyniadau yn nwylo'r awdurdodau lleol hynny sy'n penderfynu y byddai ardoll ymwelwyr o werth i'w hardal.

Rydym wedi mynd ati i ddylunio'r fframwaith ar gyfer yr ardoll ymwelwyr gyda'r bwriad o gydbwysu ymreolaeth leol â'r angen am gysondeb. Yn gyffredinol byddwch yn nodi bod y Bil yn mabwysiadu dull o sicrhau cysondeb cenedlaethol ar draws pob maes ond un o ddyluniad yr ardoll, er mwyn sicrhau symrlwydd i ymwelwyr a darparwyr llety ymwelwyr.

Yr unig faes lle'r ydym wedi darparu rhywfaint o ymreolaeth leol yw pennu swm ychwanegol (premiwm) ar ben y cyfraddau a bennir mewn deddfwriaeth. Mae hyn yn gyson â'n dull o ymdrin â threthi lleol eraill megis y dreth gyngor lle y gall awdurdodau lleol hefyd bennu premiwm. Ar ben hynny, mae'r dull hwn yn cydnabod y bydd rhai ardaloedd yn wynebu costau twristiaeth uwch ac felly y bydd angen iddynt gynhyrchu mwy o refeniw i wrthbwysu'r costau hynny. Bydd ein dull gweithredu yn caniatáu ar gyfer yr ymreolaeth leol hon, ar ôl rhoi ardoll ymwelwyr ar waith yn llwyddiannus. Nid ydym yn rhag-weld y bydd premiwm yn cael ei ddefnyddio ar unwaith.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 3
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

2. Sut rydych wedi lliniaru'r pryderon hyn o ystyried bod y cynigion yn y Bil yn seiliedig ar ardoll ymwelwyr ddewisol leol?

Nid oes fawr o ymreolaeth leol yng ngweithrediad yr ardoll ac rydym wedi mynd ati i sicrhau cysondeb yn nyluniad y dreth. Rydym wedi dylunio'r ardoll i fod yn syml i'w chasglu a'i rheoli. Lle bynnag y cyflwynir ardoll, bydd yr un math o gyfradd, yr un esemptiadau, cyfraddau o ddim a senarios lle y bydd modd ei had-dalu ar waith. Bydd hefyd yn gweithredu ar draws ardal awdurdod lleol cyfan yn hytrach na chaniatáu ar gyfer amrywiadau mewn is-awdurdodau lleol.

Byddwn yn datblygu brandio a negeseuon cyson y gall awdurdodau lleol sy'n ceisio cyflwyno ardoll ymwelwyr eu defnyddio. Bydd Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) hefyd yn datblygu canllawiau gweithredol i drethdalwyr, a system ganolog ar gyfer casglu a rheoli. Byddwn yn parhau i ymchwilio i gyfleoedd i sicrhau rhwyddineb wrth ddefnyddio a deall y gofrestr a'r ardoll wrth ddylunio'r gwasanaeth. Mae'r dull hwn wedi'i lywio gan ein hymatebion i'r ymgynghoriad.

Thema gyffredin o grynodeb yr ymatebion i'r ymgynghoriad yw'r posibilrwydd i'r ddeddfwriaeth osod baich gweinyddol ar ddarparwyr llety llai.

3. Yn eich barn chi, i ba raddau fydd y ddeddfwriaeth yn darparu heriau gweinyddol i ddarparwyr llety megis unigolion sy'n rheoli tai llety a llety gwely a brecwast?

Rydym wedi cynllunio'r ardoll ymwelwyr i fod mor syml a didrafferth â phosibl i'w defnyddio ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr ac ymwelwyr. Mae ACC wedi mynd ati i ymgysylltu â defnyddwyr a gwneud gwaith darganfod a bydd yn parhau i ymgysylltu â'r sector i sicrhau bod pethau'n rhedeg yn esmwyth. Bydd uno'r system gofrestru a system yr ardoll yn sicrhau baich gweinyddol llai i ddarparwyr.

Bydd darparwyr llai sy'n casglu llai na £1000 o ardoll ymwelwyr y flwyddyn yn gallu dewis ffeilio ffurflenni a gwneud taliadau yn flynyddol. Mae hyn yn cyfyngu unrhyw faich gweinyddol ychwanegol ar ein darparwyr llai.

Tynnodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad sylw hefyd at y posibilrwydd i'r ardoll gael effaith anghymesur ar ddarparwyr llety llai.

4. Pa ddadansoddiad ydych wedi'i gynnal i fesur yr effaith ar ddarparwyr llety llai a pha gymorth fydd yn cael ei roi i'r darparwyr hyn?

Mae'r EM/RIA yn nodi'r effeithiau posibl ar ddarparwyr llai.

Rydym wedi cynllunio'r ardoll ymwelwyr i fod yn syml, yn didrafferth ac yn hawdd cydymffurfio â hi ar gyfer busnesau. Bydd yn ofynnol i'r rhan fwyaf o fusnesau bach gyflwyno ffurflenni yn flynyddol yn unig, gan leihau unrhyw faich gweinyddol ychwanegol yn sylweddol.

Mae ACC wedi ymrwymo i helpu i ddarparu system dreth deg i Gymru drwy'r hyn y mae'n ei alw yn 'Ein Dull', ffordd Gymreig o wneud treth. Mae hyn yn seiliedig ar addysgu a chefnogi trethdalwyr gyda'u cyfrifoldebau.

Bydd ACC yn parhau i fynd ati i ymgysylltu â defnyddwyr a gweithio gyda rhanddeiliaid ar draws y sector i ddylunio a chyflwyno system sy'n gweithredu'n effeithlon ar gyfer pob

darparwr. Fel rhan o ddull gweithredu ACC, bydd yn cynhyrchu canllawiau ac offer i ddarparwyr, yn ogystal â pharhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid cyn ac ar ôl i'r ardoll gael ei rhoi ar waith.

Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr yn anghytuno bod rhestr o ddarparwyr llety ymwelwyr ar gael i'r awdurdod treth, gan nodi'r defnydd o'r systemau presennol a chofrestrau yn lle hynny.

5. Pa ystyriaeth wnaethoch ei rhoi i ddefnyddio ffynonellau presennol a pham oeddech yn teimlo y byddai gwneud darpariaethau yn y Bil ar gyfer cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr yn ddull mwy effeithiol?

Nid oes unrhyw ffynhonnell ddata statudol unigol ar gael y gellir ei defnyddio i ddarparu ar gyfer cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr. Gall ffynonellau data statudol presennol amlinellu rhywfaint o wybodaeth berthnasol ond ni fyddant yn ymgorffori pob darparwr llety ymwelwyr. Mae cael cofrestr statudol yn mynd i'r afael â'r bwlch gwybodaeth hwn fel yr amlinellir yn yr EM/RIA.

Roedd adborth o'r ymgynghoriad yn dangos yr angen i gael cynllun cofrestru statudol ar waith yn gyntaf cyn y gellid gweinyddu ardoll yn effeithiol. Dyma'r hyn yr ydym yn ei gynnig yn y ddeddfwriaeth.

Y rheswm mwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad dros anghytuno â chreu rhestr o ddarparwyr llety ymwelwyr oedd pryder na fyddai'n ddefnyddiol o gofio amheuan ynghylch pa mor effeithiol fyddai hi o ran adnabod pob darparwr, yn ogystal â chynhyrchu costau ariannol ychwanegol a baich gweinyddol o bosibl. Mae'r costau ariannol ychwanegol yn seiliedig ar yr amser i gwblhau'r broses gofrestru ac nid ydym yn cynnig codi ffi gofrestru.

Mae cofrestru pob darparwr llety ymwelwyr drwy gynllun cofrestru statudol o fudd i'r ardoll ymwelwyr. Y rheswm dros hyn yw y gellir gwneud amcangyfrifon mwy effeithiol o'r sylfaen dreth i lywio penderfyniadau awdurdodau lleol ynghylch defnyddio ardoll. Ar ben hynny, bydd yn darparu gwybodaeth werthfawr mewn perthynas â gwneud penderfyniadau parhaus a datblygu polisi ar gyfer yr ardoll.

Nododd y crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad y gallai codi ardoll fesul person, fesul nos, osod baich ariannol anghymesur ar ddarparwyr llety cost isel, a allai hefyd godi'n anghymesur gost y llety a ddefnyddir gan ymwelwyr incwm isel.

6. A ydych yn cytuno â'r datganiad hwn a beth y gellid ei wneud i sicrhau nad yw ymwelwyr incwm isel yn cael eu heithrio o arosiadau dros nos yng Nghymru?

Nid wyf yn cytuno â'r datganiad hwn. Mae'r ardoll yn dâl cymedrol ac yn gyffredinol mae wedi'i phennu ar gyfradd is na'r ardollau a gymhwysir mewn mannau eraill. At hynny, mae cyfradd band is wedi'i chynnwys i gyfrif am arosiadau ar leiniau safleoedd gwersylla ac ystafelloedd a rennir mewn hostelau. Mae'r mathau hyn o lety ymwelwyr yn fwy fforddiadwy yn gyffredinol, gan ymgorffori tegwch yn y dull gweithredu. Mae'r EMRIA yn nodi'r cynnydd posibl mewn costau i ymwelwyr a busnesau.

Gwnaethom ddiystyru cyfradd ganrannol oherwydd y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r math hwnnw o gyfradd. Mae cyfradd fesul person y noson yn cyd-fynd â bwriad y polisi gan y byddai'n sicrhau bod darparwyr yn cyfrif am bob ymwelydd ac yn codi tâl arnynt

pan fyddant yn trosglwyddo'r costau ymlaen. Hwn fyddai'n fwyaf dealladwy i ymwelwyr gan ei fod yn cael ei godi'n uniongyrchol fesul person.

Rydym wedi canolbwyntio ar gadw dyluniad a gweithrediad yr ardoll yn syml ac yn glir er mwyn osgoi rhoi baich gweinyddol sylweddol ar ddarparwyr llety.

Tynnodd yr ymatebwyr sylw at effaith darparu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r ardoll, gan gynnwys yr adnoddau cyffredinol y byddai eu hangen i gydymffurfio â'r gofynion data angenrheidiol, megis buddsoddi i ddiweddarau a chysoni systemau gweinyddol a neilltuo.

7. A ydych yn rhag-weld materion gweithredu i ddarparwyr llety ymwelwyr wrth integreiddio'r ardoll yn eu systemau?

Nid ydym yn rhag-weld unrhyw broblemau wrth integreiddio'r ardoll mewn systemau o gofio bod ardollau ymwelwyr ledled y byd sydd eisoes wedi'u hintegreiddio mewn systemau. Bydd y rhan fwyaf o ddarparwyr eisoes yn casglu'r wybodaeth berthnasol fel rhan o'r broses archebu i'w galluogi i drosglwyddo costau'r ardoll i ymwelwyr yn effeithiol. Mae'r ardoll ymwelwyr yn dreth anuniongyrchol, a gall darparwyr llety ymwelwyr ddewis amsugno'r gost neu gynyddu eu costau i gyfrif am yr ardoll. Rydym yn rhag-weld y bydd y rhan fwyaf o ddarparwyr yn pasio'r costau ymlaen drwy godi eu prisiau. Nid yw'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr godi'r ardoll ar ymwelwyr, ond rhaid i ddarparwr roi cyfrif ar gyfer pob ymwelydd at ddibenion yr ardoll.

Yn ogystal, mae'n debygol y bydd darparwyr yn defnyddio llwyfannau archebu a fydd yn hwyluso gweithredu a chasglu'r ardoll ymwelwyr. Mae'r llwyfannau hyn yn gweithredu ledled y byd ac mae ganddynt y nodweddion swyddogaethol i gefnogi casglu a rheoli ardoll ymwelwyr. Mae adran 36 o'r Bil yn cefnogi'r dull hwn.

Roedd cefnogaeth gref i ymgysylltiad lleol gan sefydliadau megis byrddau twristiaeth ac aelodau'r diwydiant twristiaeth i helpu i benderfynu sut y dyrennir refeniw ardoll.

8. A wnaethoch ystyried cynnwys rôl ffurfiol i randdeiliaid lleol wrth benderfynu sut y caiff refeniw ei wario yn y Bil yn hytrach na'i adael yn ôl disgresiwn awdurdodau lleol?

Rydym yn cydnabod bod gan yr awdurdodau lleol berthnasol sefydledig a fforymau lle y gallant drafod y defnydd o'r ardoll ymwelwyr a'r refeniw a gynhyrchir. Mater i swyddogion a etholwyd yn lleol fydd gwneud penderfyniadau gwario ynghylch sut y caiff y refeniw o'r ardoll ei wario. Bydd trafodaeth reolaidd gyda rhanddeiliaid lleol ynghylch defnyddio refeniw o'r ardoll yn sicrhau penderfyniadau gwario gwybodus.

Bydd angen lefel uchel o dryloywder gan yr awdurdodau lleol gan y bydd angen iddynt gyhoeddi adroddiad blynyddol ar wahân ynghylch sut y defnyddiwyd enillion yr ardoll.

Mae adran 23 o'r Bil hefyd yn nodi'r gofynion ar gyfer sut y gellir defnyddio enillion net o'r ardoll ymwelwyr.

Cofrestr darparwyr llety ymwelwyr

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, gwnaethoch nodi y byddai y broses gofrestru'n dechrau yn 2026, gan ganolbwyntio ar yr ardaloedd awdurdodau lleol sy'n bwriadu cyflwyno'r ardoll ymwelwyr yn y lle cyntaf, ac y bydd y broses gofrestru wedyn yn digwydd fesul cam ar draws Cymru. (paragraff 69).

9. Pryd ydych yn disgwyl cwblhau'r broses gofrestru darparwyr llety ymwelwyr ar draws pob prif gyngor?

Bydd cofrestru yn broses barhaus sy'n adlewyrchu hylifedd y sector. Er enghraifft, gall darparwr llety ymwelwyr ddarparu llety i ymwelwyr un flwyddyn ond nid y flwyddyn nesaf. Ni wnaed unrhyw benderfyniadau terfynol ynghylch yr amserlenni ar gyfer eu cyflwyno i ardal pob prif gyngor, ond y bwriad yw cofrestru pob darparwr llety ymwelwyr erbyn 2028.

Rhoi cyfrif am yr ardoll a'i thalu

Yn unol ag adran 20(2), mae'r terfyn amser ar gyfer talu'r ardall yn gyson â'r terfyn amser ffeilio ar gyfer y ffurflenni.

10. A ydych yn credu y rhoddir digon o amser i ddarparwyr llety ymwelwyr dalu?

Mae'r amserlen dychwelyd 30 diwrnod yn gyson â'r system dreth ehangach. Mae hyn yn darparu cysondeb ar gyfer y rhai sy'n ffeilio yn flynyddol ac yn chwarterol, a bydd darparwyr llety ymwelwyr yn gweithio tuag at un terfyn amser ar gyfer talu a ffeilio. Mae hyn hefyd yn lleihau nifer y terfynau amser y bydd angen i ddarparwyr llety ymwelwyr gadw golwg arnynt. Bydd y broses ddychwelyd yn ddidrafferth gan fod yr ardoll yn dreth syml. Bydd ACC yn gweithio'n agos gyda darparwyr llety ymwelwyr ar bob cam i hyrwyddo cydymffurfiaid drwy ddull addysgol yn unol ag 'Ein Dull', ffordd Gymreig o wneud treth gan Awdurdod Cyllid Cymru.

Y defnydd o enillion ardoll gan brif gynghorau

Mae adran 23 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r prif gyngor ddefnyddio'r refeniw a gynhyrchir gan yr ardoll at ddibenion rheoli a gwella cyrchfannau yn ei ardal.

11. A ydych yn disgwyl y bydd enillion yr ardoll yn cael eu defnyddio fel cyllid ychwanegol ar gyfer rheoli a gwella cyrchfannau a beth fyddai'n atal y cyllid hwn rhag disodli unrhyw gyllid presennol gan brif gynghorau at y dibenion hyn?

Rydym yn disgwyl y byddai elw o'r ardoll yn gyllid ychwanegol na fyddai'n disodli cronfeydd presennol. Mae'r Bil yn adran 25 yn nodi bod rhaid i brif gynghorau ymgynghori cyn cyflwyno ardoll, ac rydym yn disgwyl y dylai unrhyw ymgynghoriad o'r fath gynnwys ystyried y defnydd o'r refeniw.

Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau ddarparu adroddiad blynyddol am yr ardoll ymwelwyr sy'n ymestyn i sut y mae'r refeniw wedi'i ddefnyddio tuag at reoli a gwella cyrchfannau.

Mae prif gynghorau eisoes yn adrodd ar sut y maent yn dyrannu eu cyllidebau presennol. Mae'n amlwg y byddai'r lefel hon o dryloywder yn darparu mesurau diogelu priodol i sicrhau bod y refeniw yn cael ei ddefnyddio'n briodol.

Ynghylch y defnydd priodol o enillion yr ardoll gan brif gynghorau, yn ystod y sesiwn dystiolaeth, gwnaethoch ddweud y canlynol:

"I think it is for local players to conduct that oversight. It can be done at the council itself, but it can be done by any one of those other broader civic bodies, to challenge

the local authority, if they feel that the money is not being applied in line with the purposes set out in the Bill.” (paragraff 235)

12. Pa oruchwyliaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei darparu o ran monitro a gwerthuso defnydd prif gynghorau o'r enillion yn y ffiniau 'rheoli a gwella cyrchfannau' a osodir gan Weinidogion Cymru yn y Bil?

Mae gennym berthynas â lefel uchel o ymddiriedaeth gyda'r awdurdodau lleol. Yn y pen draw, rhaid i swyddogion a etholwyd yn lleol wneud penderfyniadau gwario a rhoi cyfrif am y penderfyniadau gwario hynny.

Bydd yr adroddiad blynyddol ardoll ymwelwyr ynghyd â'u datganiad o gyfrifon a ddarperir gan yr awdurdodau lleol yn rhoi digon o fanylion am effaith yr ardoll ymwelwyr.

Cyflwyno, newid neu ddiddymu'r ardoll

Mae adran 25(3) o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r prif gyngor ymgynghori â chyfres o ymgynghoreion gorfodol, neu bersonau priodol eraill, ar ei adroddiad a'i gynigion mewn cysylltiad â'r ardoll.

13. Fel rhan o'r broses ymgynghori orfodol ar yr ardoll, a fydddech yn disgwyl i brif gynghorau ofyn am farn pobl nad ydynt yn byw, yn gweithio neu'n astudio yn ardal y prif gyngor, er enghraifft, ymwelwyr rheolaidd â'r ardal?

Rydym yn rhag-weld y bydd ymgynghoriadau ar gyfer yr ardoll ymwelwyr yn cael eu cyhoeddi ac y byddant yn hygyrch i'r rhai sy'n dymuno ymateb i ymgynghoriad awdurdod lleol nad ydynt yn byw, yn gweithio neu'n astudio yn ardal y cyngor.

Rhaid i'r awdurdodau lleol ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy ac efallai y byddant am ofyn am farn ymwelwyr fel rhan o'u hymgyngoriad, ond nid oes angen gwneud hyn. Mae cyrff sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn ymgynghoreion gorfodol.

Mae adran 26(3)(a) o'r Bil yn galluogi'r prif gyngor ac Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) i gytuno i gwtogi ar y cyfnod 12 mis y byddai'r ardoll yn dod i rym ar ôl cyhoeddi hysbysiad o'i fwriad i weithredu ardoll.

14. Pam y dylid gadael i'r cyngor ac ACC benderfynu cwtogi'r cyfnod gweithredu, gan roi llai o amser i ddarparwyr llety ymwelwyr baratoi ar gyfer cyflwyno'r ardoll?

Bwriedir byrhau cyfnod pan allai'r ardoll newid mewn amgylchiadau pan fo terfyn amser ar gyfer cyflwyno newydd gael ei golli, er enghraifft yn ôl diwrnod neu wythnos.

Bydd angen i ACC recriwtio staff a sicrhau eu bod yn barod yn weithredol. Pan fydd yr ardoll gyntaf ar waith yng Nghymru, byddwn yn dysgu gwersi am sut y mae darparwyr a llwyfannau archebu wedi addasu. Efallai fod proses hysbysu fyrrach neu hirach yn briodol ar sail y gwersi cychwynnol hyn.

Mae byrhau'r cyfnod hysbysu hefyd yn gymwys ar gyfer rhoi'r gorau i'r ardoll. Bydd ACC wedi cyflogi staff i weithredu'r ardoll, felly mae'n briodol bod ganddo hysbysiad priodol i ymateb.

Atodlen 1 – Gwelliannau i Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

Mae paragraff 6 yn ei gwneud yn ofynnol i ACC gasglu'r ardoll a thalu enillion net i'r prif gyngor perthnasol.

15. Sut y bydd costau'n cael eu neilltuo'n deg ac a fydd costau casglu a ysgwyddir gan gynghorau unigol yn dibynnu ar y nifer sy'n cyflwyno'r ardoll?

Bwriad y polisi yw y bydd yr ardoll ymwelwyr yn y pen draw yn ei hariannu ei hun yn llwyr gyda chostau ACC yn cael eu rhannu rhwng yr awdurdodau lleol mewn modd sy'n gymesur â'r refeniw y maent yn ei gynhyrchu.

Nid ydym wedi cynnwys fformiwla dosrannu costau ar wyneb y Bil i sicrhau, os byddai un awdurdod lleol yn unig yn cyflwyno'r ardoll i ddechrau, fod unrhyw gostau cysylltiedig a ysgwyddir o dderbyniadau ardoll yn gymesur.

Mae paragraff 14 yn cynnwys darpariaeth ynghylch pryd y dylid ystyried bod gwybodaeth ar gael i ACC mewn perthynas ag asesiadau ACC.

16. A allwch egluro pam y mae angen hyn?

Mae'r Bil yn diwygio'r diffiniad i egluro pryd y bernir bod gwybodaeth 'ar gael' i ACC lle y dylai wneud asesiad oherwydd bod treth wedi cael ei cholli neu ormod o dreth wedi'i had-dalu. Mae'r gwelliant yn ceisio rhoi eglurder ynghylch yr hyn y mae 'ar gael' yn ei olygu i ACC a threthdalwyr. Bydd yr eglurder ychwanegol hwn yn bwysig wrth symud ymlaen wrth i ACC ymdrin â sylfaen cwsmeriaid fwy o faint ac amrywiol. Bydd y diffiniad cliriach yn helpu ein trethdalwyr newydd i ddeall sut a pham y gallai asesiadau fod wedi'u codi neu sut y maent wedi'u codi. Mae'r eglurder hwn eisoes ar gael i drethdalwyr CThEF.

Mae paragraff 17 yn dileu'r gofyniad i ACC geisio cymeradwyaeth y tribiwnlys cyn cyhoeddi hysbysiad trethdalwr sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo ddarparu gwybodaeth neu ddogfennau.

17. A yw hyn yn gwanhau amddiffyniad trethdalwyr?

Mae gan CThEF a Revenue Scotland y gallu i gyflwyno hysbysiadau trethdalwyr heb i'r tribiwnlys gymeradwyo hysbysiad ymlaen llaw; o'r herwydd, pŵer sydd wedi'i ddeall yn dda a ddefnyddir ar draws trethi eraill yw hwn ac mae'n caniatáu mwy o gysondeb, ac felly eglurder yn y system dreth.

Bydd alinio pwerau ACC â CThEF a Refeniw hefyd yn gwella effeithlonrwydd gweinyddu'r holl drethi y mae ACC yn eu casglu a'u rheoli. Bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth iddo baratoi i gefnogi nifer cynyddol o drethdalwyr os caiff yr ardoll ymwelwyr ei rhoi ar waith.

Pan fo ACC yn cyhoeddi hysbysiad heb gymeradwyaeth y Tribiwnlys, bydd y penderfyniad yn benderfyniad y gellir apelio yn ei erbyn a'i adolygu i sicrhau bod dulliau o gadw cydbwysedd yn dal i fod ar waith. Felly, mae amddiffyniadau priodol a sefydledig ar gyfer trethdalwyr yn parhau i fod ar waith.

Materion eraill

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, gwnaethoch ymrwymo i ysgrifennu atom i gadarnhau a fydd yn ofynnol i ddarparwyr llety ymwelwyr eitemeiddio'r ardoll ar fil ymwelydd.

Mae pŵer gwneud rheoliadau wedi'i gynnwys yn adran 37 y gellir ei ddefnyddio i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr llety ymwelwyr i eitemeiddio'r ardoll ar fil ymwelydd.

Arfer dda gan ddarparwyr llety ymwelwyr fyddai eitemeiddio'r ardoll ymwelwyr lle caiff y tâl ei drosglwyddo i ymwelwyr, ond fel isafswm byddem yn disgwyl i'r tâl gael ei nodi drwy unrhyw broses archebu, hysbyseb neu gael ei arddangos o fewn y safle. Nid yw'r rhain yn ofynion yn y Bil a mater i ddarparwyr llety ymwelwyr fydd penderfynu ar y ffordd orau o arddangos neu hysbysu bod ardoll ymwelwyr yn gymwys

A yw 30 diwrnod yn ymwneud â diwrnodau calendr neu ddiwrnodau gwaith?

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar 5 Rhagfyr, gofynnodd y Pwyllgor am eglurder ynghylch a oedd y cyfeiriad yn adran 15(2) o'r Bil at 30 diwrnod yn gyfeiriad at ddiwrnodau calendr neu ddiwrnodau gwaith. Gallwn gadarnhau mai cyfeiriad at ddiwrnodau calendr yw'r cyfeiriad hwn.

Ynglŷn â chynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwelliannau pellach yng Nghyfnod 2, gwnaethoch ddweud y canlynol: "There is one further important area, which is the area of data sharing. I do anticipate that there will have to be Stage 2 amendments on that. I hope to share a document with the committee. I may not be in a position, as we are with the enforcement processes at this moment, to give you the actual text of the amendments, but I do hope to write to the committee shortly setting out the approach we are taking to data sharing". (paragraff 148)

Rydym hefyd yn edrych ymlaen at gael rhagor o wybodaeth am eich dull arfaethedig o rannu data.

Rydym yn atodi llythyr yn Atodiad 1 yn nodi'r dull hwn.

Yn gywir,



Mark Drakeford AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

Atodiad 1

Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) etc. (Cymru) - Nodau Polisi Rhannu Data

Ceidwad y gofrestr

Rydym yn bwriadu ei gwneud yn glir drwy welliant yng Nghyfnod 2 mai ACC fydd ceidwad y gofrestr.

Y gofrestr

Fel y mae, mae'r Bil yn nodi bod **rhaid** i'r gofrestr gynnwys yr wybodaeth ganlynol ("gwybodaeth orfodol") mewn perthynas â phob darparwr llety ymwelwyr yng Nghymru:

- (a) enw'r darparwr llety ymwelwyr ("VAP"),
- (b) unrhyw enw masnachu a ddefnyddir gan y VAP,
- (c) cyfeiriad priodol y VAP,
- (d) datganiad ynghylch a yw'r VAP yn unigolyn, yn bartneriaeth, yn gorff corfforaethol neu'n gorff anghorfforedig,
- (e) y math o lety ymwelwyr y mae'r VAP yn ei ddarparu neu'n cynnig ei ddarparu, ac
- (f) enw a chyfeiriad (gan gynnwys sir neu fwrdeistref sirol) y fangre lle y darperir y llety ymwelwyr hwnnw.

Erbyn diwedd Cyfnod 2 bydd y Bil yn rhoi eglurder ynghylch beth fydd pwerau ACC mewn perthynas â'r gofrestr, a fydd, yn ogystal â'r uchod, yn cynnwys pŵer i gasglu gwybodaeth arall y mae ACC o'r farn ei bod yn briodol. Gallai'r pŵer hwn gynnwys gwybodaeth mewn perthynas â data am gapasiti neu ddata o natur dymhorol gan y bydd hyn yn cefnogi datblygu ystadegau defnyddio cywir ac amcangyfrifon o symiau ardolladwy y gellid eu casglu. Rydym hefyd yn archwilio pa wybodaeth arall y gall y gofrestr ei chadw yn y dyfodol, er enghraifft gwybodaeth drwyddedu.

Cyhoeddi gwybodaeth o'r gofrestr

Y bwriad yw cyhoeddi'r rhan fwyaf o'r wybodaeth orfodol a gesglir ac a gynhwysir ar y gofrestr (a rhywfaint o wybodaeth ychwanegol a gesglir) lle mae o fudd i'r cyhoedd. Efallai y bydd rhai senarios lle nad yw'n gymesur cyhoeddi data am ddarparwyr llety ymwelwyr neu'r eiddo y maent yn ei weithredu. Enghraifft allweddol fyddai darparwr llety ymwelwyr sy'n cynnig darparu neu sy'n darparu llety i ymwelwyr yn ei gartref eu hunain; efallai y byddwn yn dymuno cyhoeddi gwybodaeth gyfyngedig yn unig mewn amgylchiadau o'r fath. Bwriedir i'r wybodaeth orfodol o'r gofrestr gael ei defnyddio at sawl diben. Bydd yn cael ei defnyddio:

- I gynorthwyo'r broses o gasglu a rheoli'r ardoll ymwelwyr (ACC)
- I gefnogi penderfyniadau gan brif gynghorau ynghylch cyflwyno'r ardoll ymwelwyr (prif gynghorau)
- Ar gyfer ymchwil a dadansoddi i lywio datblygu polisi parhaus ar draws treth, tai a thwristiaeth (Gweinidogion Cymru)
- Darparu sylfaen ar gyfer unrhyw gynllun trwyddedu yn y dyfodol (i'w gadarnhau – awdurdod trwyddedu)

Datgelu data o'r gofrestr gan ACC

Gan mai ACC fydd yn dal y gofrestr, bydd angen darpariaeth sy'n galluogi data cofrestru i gael ei rannu â chyrrff cyhoeddus eraill at ddibenion penodol sy'n gysylltiedig â'u swyddogaethau. Y rheswm dros hyn yw na fydd yr holl wybodaeth sydd ar y gofrestr yn cael ei gwneud yn gyhoeddus (er enghraifft, gwybodaeth gyswilt), ond bydd ei hangen ar gyrff cyhoeddus eraill yn unol â'u priod swyddogaethau.

Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o gyfuno gwasanaethau'r llywodraeth, lleihau'r baich gweinyddol ar ddefnyddwyr y gwasanaethau hynny a darparu gwell gwerth am arian i drethdalwyr.

Bydd angen mynediad at wybodaeth o'r gofrestr gan y cyrrff canlynol ac at y dibenion canlynol:

- Prif gynghorau – pan fo gwybodaeth nad yw ar y gofrestr gyhoeddus yn ymwneud ag arfer eu swyddogaethau
- Gweinidogion Cymru – at ddibenion ymchwil a dadansoddi er mwyn helpu i lywio datblygu polisi
- Awdurdod trwyddedu'r dyfodol – ar gyfer swyddogaethau trwyddedu i helpu i nodi pa ddarparwyr a safleoedd y mae angen eu trwyddedu, ac i symleiddio'r gwaith gweinyddu cyn belled â phosibl.

Byddwn yn ceisio cynnwys pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i hwyluso datgeliadau eraill o'r gofrestr yn y dyfodol. Mae hwn yn faes lle'r hoffem wneud rhagor o waith cyn gwneud unrhyw reoliadau.

Cyflwynwyd yr ymateb i ymgynghoriad y [Pwyllgor Cyllid](#) ar [Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26](#).

This response was submitted to the [Finance Committee](#) consultation on the [Welsh Government Draft Budget 2025-26](#).

WGDB25-26(6)73: Ymateb gan: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru(CLLC)
| Response from: Welsh Local Government Association (WGLA)



Y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: Craffu ar Gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26

Jon Rae, Cyfarwyddwr Adnoddau

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Llais Cynghorau Cymru

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn sefydliad trawsbleidiol dan arweiniad gwleidyddol sy'n ceisio rhoi llais cryf i lywodraeth leol ar lefel genedlaethol.

Rydym yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hybu democratiaeth leol yng Nghymru.

Ein haelodau yw'r 22 o Gynghorau yng Nghymru ac mae'r tri awdurdod tân ac achub ac awdurdodau'r 3 pharc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

Credwn fod y syniadau sy'n newid bywydau pobl yn digwydd yn lleol.

Mae cymunedau ar eu gorau pan maent yn teimlo eu bod wedi'u cysylltu â'u cynghorau trwy ddemocratiaeth leol. Trwy hyrwyddo'r cysylltiadau hynny, eu hwyluso a'u cyflawni, gallwn ddatblygu democratiaeth leol fywiog sy'n galluogi cymunedau i ffynnu.

Ein nod yn y pen draw yw hyrwyddo, diogelu, cefnogi a datblygu llywodraeth leol ddemocrataidd a buddiannau cynghorau yng Nghymru.

Byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth drwy

- Hyrwyddo swyddogaeth a statws cynghorwyr ac arweinwyr cynghorau
- Sicrhau'r disgresiwn lleol mwyaf posib o ran deddfwriaeth neu ganllawiau statudol
- Cefnogi a sicrhau cyllid hirdymor a chynaliadwy i gynghorau
- Hybu gwelliant dan arweiniad y sector
- Annog democratiaeth leol fywiog gan hybu mwy o amrywiaeth
- Cefnogi cynghorau i reoli eu gweithlu'n effeithiol



Trosolwg

1. Mae'r papur tystiolaeth hwn yn mynd i'r afael â'r cwestiynau a ofynnwyd gan y pwyllgor yn atodiad 2 i'r llythyr comisiynu. Mae'n seiliedig yn bennaf ar y papur a gyflwynwyd gennym i Lywodraeth Cymru yng nghyfarfod yr Is-grŵp Cyllid ar 23 Hydref.
2. Roedd y rhan fwyaf ohono yn cynnwys ein hasesiad o bwysau gwario llywodraeth leol sydd wedi parhau'n gyson uchel yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Ar adeg ysgrifennu'r papur, roeddem yn casglu data ar effaith y cynnydd mewn cyfraniadau yswiriant gwlad. Rydym yn casglu data ar yr effaith uniongyrchol ac ar effaith gofal cymdeithasol a gomisiynwyd – bydd y data ar gael i'r pwyllgor gyda hyn.

Cwestiynau'r Pwyllgor

Beth, yn eich barn chi, fu effaith Cyllideb 2024-25 Llywodraeth Cymru?

3. Llynedd bu i ni adrodd y byddai'r pwysau ariannol ar y llywodraeth leol yn £720 miliwn yn 2024-25. Roedd rhywfaint o ansicrwydd ynghylch cyllid ar gyfer pensiynau athrawon a diffoddwyr tân ac ynghylch elfen o gyflogau athrawon. Bydd y mater o ran pensiynau'n cael ei ddatrys gyda hyn, ac mae dyraniadau wedi'u cylchredeg ddiwedd mis Tachwedd 2024. Rhoddodd y setliad canlyniadol gynnydd o 3.3% neu £180 miliwn yn ychwanegol i'r llywodraeth leol, a gadawodd hynny ynghyd â £110 miliwn o incwm Treth y Cyngor fwch amcangyfrifedig o oddeutu £400 miliwn yn y gyllideb – a oedd yn golygu penderfyniadau anodd iawn i wasanaethau anstatudol a mwy a mwy o ysgolion. Mae'r problemau gyda chyllidebau ysgolion wedi'u nodi yn yr atodiad, paragraffau 19 i 31, sy'n crynhoi cyflwr y gwasanaeth, ffabrig adeiladau ysgol a chronfeydd wrth gefn ysgolion.
4. Yn yr adroddiad i'r Is-Bwyllgor Cyllid, ynghlwm wrth Atodiad I, adroddwn am orwariant rhagamcanol yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol o £238 miliwn. Mae £106 miliwn ohono'n ymwneud â gofal cymdeithasol, £92 miliwn yn ymwneud ag addysg a £40 miliwn yn ymwneud â gwasanaethau eraill. Mae effaith hynny'n golygu bod penderfyniadau anodd wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn.

Pa mor barod yn ariannol yw'ch sefydliad ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26, sut y bydd chwyddiant yn effeithio ar eich gallu i gyflawni amcanion sydd wedi'u cynllunio, a pha mor gadarn yw'ch gallu i gynllunio ar gyfer blynnyddoedd i ddod?

5. Yn ystod yr haf cynaliasom arolwg gyda'n cyfarwyddwyr ariannol, gan gasglu data a gwybodaeth am gynlluniau ariannol tymor canolig awdurdodau lleol ar



gyfer y flwyddyn nesaf a'r ddwy flynedd ganlynol. Amcangyfrif y bydd y pwysau ariannol y flwyddyn nesaf yn £559 miliwn. Byddai hyn yn gofyn am gynnydd o ychydig dros 7% mewn gwariant refeniw net¹. Mae'r pwysau yn ddidostur dros y blynyddoedd nesaf, ond yn gostwng ychydig i £454 miliwn yn 2026-27 ac yn codi ychydig i £464 miliwn yn 2027-28. Mae pwysau ariannol y flwyddyn nesaf yn ddwbl yr hyn a ddisgwylir fel arfer ac fe geir papur cyfan yn yr atodiad yn manylu ar hyn. Mae gofal cymdeithasol yn cyfrif am 40% (£223 miliwn) o bwysau yn 2025-26, mae ysgolion yn cyfrif am 22% (£120 miliwn) o'r pwysau ac mae gwasanaethau eraill yr awdurdod lleol yn cyfrif am y 40% sy'n weddill (£224 miliwn).

6. Gyda'i gilydd, mae'r pwysau sy'n cronni yn y system yn dod i £1.478 biliwn ac mae'r bwlch yn y gyllideb sy'n deillio o hynny yn golygu bod y rhagolygon yn heriol iawn a'r opsiynau ar gyfer llawer o wasanaethau lleol yn annymunol. Bydd mynd i'r afael â phwysau o £559 miliwn, heb gyllid ychwanegol, yn gofyn am gymysgedd o gynnydd yn nhreth y cyngor, toriadau i wasanaethau ac arbedion effeithlonrwydd. Mae'r pwysau cyfwerth â chynnydd o 26% yn nhreth y cyngor, neu golli bron i 14,000 o swyddi².

Pa gamau y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd i fynd i'r afael â chwyddiant a thrafferthion costau byw?

7. Tra bod y llywodraeth yn darparu cyngor a gwybodaeth ategol ar eu gwefan, gellir gwneud mwy o ran cynlluniau cefnogi penodol wedi'u teilwra. Mae cynghorau lleol yn Lloegr wedi llwyddo i ddarparu cefnogaeth wedi'i thargedu drwy'r Gronfa Cefnogi Aelwydydd. Mae'r gronfa hon ar gyfer unrhyw un sy'n ddiamddiffyn neu'n methu talu am hanfodion ac mae rhwydd hynt i gynghorau weithredu eu cynlluniau cefnogi eu hunain. Maent hefyd yn gallu defnyddio asiantaethau partner i helpu i weinyddu'r cyllid i'r rheiny â'r angen mwyaf.
8. O'r cyhoeddiad cyntaf ym mis Medi 2024 hyd heddiw, mae cyfanswm o £3.5 biliwn wedi'i roi yn y cynllun hwn gyda'r llywodraethau datganoledig yn penderfynu sut y dylid defnyddio'r arian. Oherwydd y penderfyniad i beidio â throsglwyddo cyllid canlyniadol cyfwerth i gynghorau Cymru, nid ydym wedi gallu cynnig yr un lefel o gefnogaeth i'n preswylwyr ni. Mae cyllid ychwanegol wedi'i roi yn y Gronfa Cymorth Dewisol ond mae cwmplas honno'n gyfyngedig ac nid ydym wedi llwyddo i gyflwyno cynlluniau cefnogi arloesol fel y rheiny ab geir yn Lloegr.

¹ Cyfanswm y gyllideb gwariant refeniw net ar gyfer 2024-25 yw £7.762 biliwn (Ffynhonnell: Ffurflenni Cyfrif Refeniw Llywodraeth Cymru).

² Gweler tabl 3 yn Natganiad Ystadegol 2024-25 Lefelau'r Dreth Gyngor yng Nghymru ([Lefelau'r Dreth Gyngor yng Nghymru, 2021-22 \(llyw.cymru\)](#)), mae cyfanswm incwm treth y cyngor yn £2.148 biliwn ar hyn o bryd. Amcangyfrifir fod swydd gyffredin yn costio £40,000 (yn cynnwys argostau).



29 Tachwedd 2024

Pa gamau y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd i fynd i'r afael ag anghenion pobl sy'n byw mewn cymunedau trefol, ôl-ddiwydiannol a gwledig, gan gynnwys adeiladu tai fforddiadwy a chefnogi economïau o fewn y cymunedau hynny?

9. Dylai'r lefel bresennol o gymorthdaliadau cyfalaf a fuddsoddir gan y llywodraeth i gefnogi cynghorau a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i ddarparu tai fforddiadwy ychwanegol ar draws Cymru gael ei hystyried yn fan cychwyn yn hytrach na phwynt uchel ar gyfer buddsoddiadau yn y dyfodol i ddarparu cartrefi newydd sydd wir eu hangen. Dylai grant tai cymdeithasol ychwanegol fod ar gael. Bydd setliad aml-flwyddyn iach gan Lywodraeth Cymru yn rhoi hyder i landlordiaid cymdeithasol, datblygwyr a phartneriaid yn y gadwyn gyflenwi ac yn rhoi sicrwydd iddynt allu cynllunio, ariannu a darparu nifer cynyddol o gartrefi fforddiadwy.
10. Dylai hyn gynnwys mwy o sicrwydd ynghylch polisi rhenti a threfniadau ariannu yn y dyfodol ar gyfer ôl-osod cartrefi. Yn unol â'r argymhelliad yn sgil ymchwiliad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i'r cyflenwad o dai cymdeithasol, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sefydlu corfforaeth datblygu cenedlaethol i arwain ar gyflawni safleoedd strategol mawr ac i gefnogi alinio tai ac ymdrechion adfywio.

A yw polisiâu cymorth busnes Llywodraeth Cymru wedi bod yn effeithiol, o ystyried y rhagolygon economaidd ar gyfer 2025-26?

11. Tra bod Busnes Cymru wedi darparu ychydig o raglenni cyffredinol o gefnogaeth i fusnesau, mae'n bwysig cydnabod rôl hanfodol cynghorau wrth gefnogi cwmnïau lleol. O ganlyniad i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin mae cynghorau wedi ailadeiladu eu gallu i weithio gyda busnesau yn eu hardaloedd. Yn ôl adborth gan gynghorau mae'r gefnogaeth hon wedi derbyn croeso mawr ac wedi arwain at ehangu busnesau, creu swyddi a chyfleoedd hyfforddiant.
12. Tra bod cael gwahanol gyrff yn cynnig cyngor a chymorth yn ddryslyd i fusnesau, a'r cynnig hwnnw'n amrywio o ardal i ardal, gelir goresgyn hynny drwy gydweithio'n agos a chael sgysiau rheolaidd. Gall dull 'Tîm Cymru' sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau'n glir o'r cychwyn cyntaf a helpu i osgoi dyblygu ymdrechion. Mae yna fanteision mawr cael cyswllt lleol, gyda chysylltiadau uniongyrchol â'r ystod lawn o wasanaethau cyngor eraill (e.e. casgliadau gwastraff/ailgylchu, priffyrdd, cynllunio, iechyd yr amgylchedd), gan gynnig cyngor a chefnogaeth wyneb yn wyneb i fusnesau lleol. Yn 2025/26 ac wedi hynny, bydd yn bwysig cynnal gallu cynghorau i weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.



A yw cynlluniau Llywodraeth Cymru i adeiladu economi wyrddach yn eglur ac yn ddigon uchelgeisiol? Ydych chi'n credu bod digon o fuddsoddiad yn cael ei dargedu at fynd i'r afael â'r argyfwng newid hinsawdd a natur? A oes unrhyw fylchau sgiliau posibl y mae angen mynd i'r afael â nhw i gyflawni'r cynlluniau hyn?

13. Mae gan y llywodraeth amrywiaeth o gynlluniau lefel uchel uchelgeisiol, ond mae'r uchelgeisiau wedi'u cyfyngu gan y gallu ymarferol i gyflawni ac yn amodol ar yr adnoddau sydd ar gael. Wrth geisio adeiladu 'economi wyrddach' mae'n bwysig bod cynlluniau'r llywodraeth yn hysbysu'r holl weithgareddau economaidd ac yn mynd y tu hwnt i'r rheiny sydd eisoes yn cael eu hystyried yn 'wyrdd' (fel ynni adnewyddadwy a rheoli ynni). Mae hyn yn golygu sicrhau bod meysydd allweddol fel caffael a chyllid yn cefnogi asesiad cylch bywyd cyfan a rhoi gwerth ar leihau carbon a budd net ar gyfer bioamrywiaeth.

14. Mae hynny'n aml iawn yn gofyn am dalu mwy o flaen llaw ar gyfer buddion 'system gyfan' a ellir eu creu yn ystod y broses adeiladu, defnyddio ac ar ddiwedd oes. Mae gwella sgiliau i sefydlu 'meddylfryd gwyrdd' a dulliau 'natur-bositif' ar draws yr holl weithgareddau economaidd yr un mor bwysig â buddsoddi, er enghraifft, mewn ynni carbon isel, cerbydau trydan, cludiant cyhoeddus, digideiddio a gweithgareddau trwsio ac aildddefnyddio. Wrth gwrs, byddai mwy o gefnogaeth gan y llywodraeth ar gyfer buddsoddi yn hyn yn helpu, ond mae hefyd yn ymwneud â gwario arian yn ddoeth ar yr opsiynau mwyaf cynaliadwy (neu, weithiau, dewis cyrraedd nodau mewn ffyrdd arloesol yn hytrach na buddsoddi mewn rhywbeth newydd). Mae hynny'n rhoi signalau i'r farchnad ac yn gallu annog y sector preifat i fuddsoddi (mwy) mewn 'twf da'.

A yw Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r mecanweithiau ariannol sydd ar gael iddi o ran benthyca a threthiant yn effeithiol?

15. Hoffem petai gan y llywodraeth fwy o hyblygrwydd o ran defnyddio ei benthyciadau a'i chronfeydd wrth gefn, ac rydym wedi lleisio ein barn i Lywodraeth y DU yn uniongyrchol drwy ohebiaeth ac yn anuniongyrchol yn ein datganiadau i'r wasg ynglŷn â chyllideb Llywodraeth y DU ar 29 Hydref.

Hoffai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar nifer o feysydd penodol eraill wrth graffu ar y Gyllideb. A oes gennych unrhyw sylwadau penodol o ran y meysydd a nodir isod

A oes digon yn cael ei wneud i fynd i'r afael â chostau byw cynyddol a chefnogi'r bobl hynny sy'n byw mewn tldi incwm cymharol?

16. Tra bod llawer o'r liferi yn nwylo Llywodraeth y DU, fel symiau'r budd-daliadau lles a'r uwchraddio blynyddol cysylltiedig, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod preswylwyr cymwys yn hawlio'r cymorth treth y cyngor



29 Tachwedd 2024

sy'n cael ei gynnig dan gynllun cenedlaethol. Does dim rhaid i gynghorau Cymru ailddylunio cynllun i gyd-fynd â'u cyllid, fodd bynnag, mae hyn yn arwain at gostau i'r llywodraeth leol gan fod cost y cynllun yn fwy na'r swm a ddyrennir drwy'r setliad.

